Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Clwb Plant Awel Y Mynydd**

**Ysgol Awel Y Mynydd**
**Sarn Mynach**
**Cyffordd Llandudno**
**LL31 9RT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Clwb Plant Awel Y Mynydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Darparwr Cofrestredig | Clwb Enfys Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 63 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Yr arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau am bethau sy'n effeithio arnynt. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn brysur ac yn weithredol frwd ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd briodol.

Mae'r staff yn broffesiynol, yn gymwys ac yn llawn cymhelliant. Maent yn deall sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn amyneddgar, yn garedig ac yn ofalgar tuag at y plant. Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol drwy amrywiaeth o weithgareddau a chyfleoedd. Caiff y rhain eu harwain gan ddiddordebau ac anghenion datblygiadol y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae ganddynt systemau ar waith i fonitro a rheoli risgiau yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yr amgylchedd yn groesawgar i'r plant ac yn cynnig dewis da o deganau a chyfarpar.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol. Maent yn rhannu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth â'r staff, gan eu helpu i ddilyn polisïau a gweithdrefnau yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn anelu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd dda i'r plant a'u teuluoedd.

## Llesiant — Da

Mae’r plant yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn hyderus yn gwneud penderfyniadau am sut i dreulio eu hamser. Er enghraifft, maent yn symud yn rhydd o amgylch y gweithgareddau ac yn dilyn eu diddordebau. Mae'r plant yn awyddus ac yn hyderus i rannu eu syniadau, ateb cwestiynau a siarad â'r staff, gan wybod y byddent yn gwerthfawrogi'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Er enghraifft, maent yn hyderus i ofyn am fwy o fwyd yn ystod amser byrbryd a siarad â'r staff am eu diddordebau neu am fywyd yn y cartref.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel gan eu bod yn cael gofal gan aelodau o staff y maent wedi meithrin cydberthnasau cynnes â nhw. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn i'r staff am gysur iddynt pan fydd angen. Mae'r plant yn hyderus wrth siarad ag oedolion eraill sy'n ymweld â'r lleoliad am eu bod yn teimlo'n ddiogel. Maent yn gwneud ffrindiau ac yn sgwrsio â'i gilydd yn ystod amser byrbryd ac amser chwarae, gan wenu a chwerthin yn aml.

Mae'r plant yn gyfeillgar ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r staff a gyda'i gilydd. Maent yn rhannu teganau, yn aros eu tro ac yn cydweithio i gwblhau tasgau'n dda. Er enghraifft, wrth chwarae â'r briciau adeiladu, maent yn rhannu syniadau am beth y dylent adeiladu ac yn helpu ei gilydd i ganfod darnau gwahanol ar gyfer eu creadigaethau. Mae'r plant yn dilyn rheolau'r lleoliad, yn ymddwyn yn dda ac yn dechrau deall anghenion eraill. Er enghraifft, mae plant o bob oed yn cymryd rhan mewn gêm osgoi'r bêl, gyda phob un ohonynt yn chwarae gyda'i gilydd yn gydweithredol ac yn sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys.

Caiff y plant ddigon o ddewis o weithgareddau ac maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau'r adnoddau a ddewiswyd ganddynt ac yn dewis chwarae ar eu pen eu hunain neu gyda'r plant eraill. Er enghraifft, aeth grŵp o blant i chwarae gyda'r teganau reidio. Maent yn trefnu eu hunain i dimau gwahanol, ac yn cael llawer o hwyl yn rasio o amgylch yr iard chwarae, gan hefyd ddatblygu eu cyd-symud a'u hymwybyddiaeth ofodol. Chwaraeodd grŵp o blant gyda'r gegin chwarae, gan esgus gweithio mewn caffi. Maent yn pobi cacennau ac yn gwneud paneidiau o de i'w ffrindiau.

Mae annibyniaeth y plant yn datblygu'n dda. Cânt eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain, ac maent yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a bod yn annibynnol. Mae'r plant yn arwain ac yn cyfarwyddo eu chwarae ac yn dewis adnoddau fel y dymunant.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn hyderus o ran eu dyletswyddau i ddiogelu plant ac wedi cael hyfforddiant diogelu. Mae'r staff yn hyderus o ran y camau cywir i'w dilyn pe byddai ganddynt bryder am blentyn. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel pe byddai angen gwneud hynny, drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd. Mae'r ymarferion hyn wedi'u dogfennu'n dda mewn cofnodion penodol. Mae gan y staff dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol a chaiff unrhyw ddamweiniau sy'n digwydd eu cofnodi'n effeithiol a'u rhannu â'r rhieni.

Mae'r staff yn annog ffyrdd iach o fyw drwy ddarparu digon o gyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff a sicrhau eu bod yn treulio amser allan yn yr awyr iach. Caiff hylendid da ei hyrwyddo, gyda'r staff yn annog ac yn cefnogi pob plentyn i olchi ei ddwylo yn ôl yr angen. Mae amrywiaeth eang o fyrbrydau iach ar gael i'r plant. Mae systemau effeithlon ar waith i roi gwybod i staff o ofynion deietegol unigol y plant er mwyn iddynt allu sicrhau bod y plant yn cael byrbrydau addas.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn tynnu sylw'r plant gyda gweithgaredd arall os byddant yn ei chael hi'n anodd rhannu neu gymryd eu tro, ac yn rhoi esboniad clir pan na fydd eu hymddygiad yn dderbyniol. Maent yn gosod ffiniau realistig, gan ystyried dealltwriaeth y plant a'u cam datblygu. Mae'r staff yn defnyddio canmoliaeth yn aml i annog y plant i ryngweithio ac ymddwyn yn gadarnhaol. Maent yn modelu sgiliau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl y maent yn gwybod y bydd y plant yn eu mwynhau, gan gynnwys cymysgedd da o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Mae'r staff yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad, gan eu helpu i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol. Mae gan y staff systemau effeithiol ar waith i gyfathrebu â'r rhieni, gan eu hysbysu'n rheolaidd am amser eu plentyn yn y lleoliad.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel. Er enghraifft, caiff mynedfa'r lleoliad ei reoli. Caiff y drysau allanol eu cadw dan glo a gofynnir i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd. Mae'r staff yn cadw cofrestr gywir o bresenoldeb y plant, gan gynnwys amseroedd cyrraedd a gadael pob plentyn. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerwyd i reoli neu ddileu'r peryglon hyn. Caiff y dogfennau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff unrhyw beryglon posibl eu monitro a'u rheoli'n effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd mawr i'r plant chwarae a dysgu. Maent yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i annog datblygiad, dychymyg a chwilfrydedd y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir yn cynnwys digon o le ac yn groesawgar i'r plant. Caiff teganau ac adnoddau eu storio ar lefel isel er mwyn i'r plant allu cael gafael arnynt yn hawdd. Mae ganddynt doiledau gyda chyfleusterau addas a sinciau isel i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae'r iard chwarae yn cynnig cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol drwy ddefnyddio cyfarpar dringo neu ddewis o'r detholiad o deganau awyr agored. Mae'r ardal laswelltog, fawr yn cynnig cyfleoedd i'r plant chwarae a rhedeg.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n briodol ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant.  Er enghraifft, drwy chwarae â blociau, gweithgareddau crefft a gweithgareddau chwarae rôl. Mae’r adnoddau yn yr ardal allanol o ansawdd da ac yn hyrwyddo chwilfrydedd y plant a'u hawydd i archwilio. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu rhai cyfleoedd i'r plant archwilio ac ailgylchu adnoddau sy'n adlewyrchu bywyd go iawn ac adnoddau amlddiwylliannol. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd hyn yn gyfyngedig.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gweledigaeth glir â'r staff ac mae ganddynt amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, sy'n cyfrannu'n effeithiol at redeg y lleoliad yn hwylus. Maent yn adolygu'r polisïau hyn yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn rhoi disgrifiad clir a chywir o'r hyn y gall y gwasanaeth gynnig. Mae hyn yn golygu y gall rhieni wneud penderfyniad gwybodus o ran a yw'r lleoliad yn diwallu anghenion eu plentyn.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad drefniadau cadarn i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae ganddynt gyngor clwb lle gall y plant rannu syniadau ac adborth am y gwasanaeth. Gall y rhieni rannu awgrymiadau, sylwadau neu syniadau newydd ar lafar neu drwy'r ap a ddefnyddir gan y lleoliad.  Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedyn yn creu adroddiad mewn ymateb i'r adborth a gafwyd, yn nodi gwelliannau a chyflawniadau ar gyfer rhedeg y lleoliad yn y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ac maent yn eu cefnogi er mwyn iddynt allu cyflawni eu rolau'n effeithiol. Maent yn sicrhau bod y cymarebau staffio gofynnol yn cael eu bodloni bob dydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'u bod yn teimlo'n gyfforddus i fynd atynt gyda chwestiynau neu i drafod unrhyw broblemau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ffeiliau addasrwydd y staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol, gan ddangos bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith. Mae'r staff yn cael eu goruchwylio; fodd bynnag, nid ydynt wedi cael arfarniadau blynyddol. Mae hyn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad gymryd camau gweithredu prydlon.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gydberthnasau da â'r rhieni. Mae'r staff yn siarad â rhieni a gwarchodwyr ar ddiwedd y sesiynau fel bod gwybodaeth am ddiwrnod y plant yn cael ei rannu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn defnyddio ap lle gallant rannu lluniau a gwybodaeth gyda rhieni. Mae ganddynt berthynas waith agos iawn â'r ysgol. Er enghraifft, Maent yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, yn rhannu adnoddau, cyfleusterau a'r amgylchedd er budd y plant.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Rhaid i'r Person Cofrestredig sicrhau fod arfarniadau yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ar gyfer pob aelod o'r staff. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Darparu mwy o adnoddau ailgylchu, bywyd go iawn ac amlddiwylliannol er mwyn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/11/2024